

BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT

ADRODDIAD I:	<u>CADEIRYDD AC AELODAU'R CYNGOR</u>
PWNC:	<u>PWYLLGOR GWASANAETHAU</u> <u>DEMOCRATAIDD - 20 CHWEFROR 2018</u>
ADRODDIAD GAN:	<u>SWYDDOG CYMORTH BUSNES</u> <u>DEMOCRATAIDD A CHORFFORAETHOL</u>

PRESENNOL: CYNGHORYDD H. McCARTHY, B.A. (ANRH)
(CADEIRYDD)

Cynghorwyr P. Baldwin
N. Daniels
K. Hayden
J. Millard
J. C. Morgan
K. Rowson
B. Summers
S. Thomas

A: Pennaeth Polisi a Pherfformiad (Pennaeth
Gwasanaethau Democrataidd dynodedig)
Rheolwr Cefnogaeth Gorfforaethol
Rheolwr Etholiadau a Phriddiannau Tir

HEFYD: **Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu**
Cynghorwyr L. Elias
P. Edwards
H. Trollope

EITEM	PWNC	GWEITHREDU
1.	<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u> Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau am y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.	

2.	<p><u>YMDDIHEURIADAU</u></p> <p>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:-</p> <p>Cynghorwyr J. Collins, M. Day, G. Thomas a M. Cook.</p>	
3.	<p><u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u></p> <p>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau.</p>	
4.	<p><u>PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD</u></p> <p>Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democritaidd a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd i'w hystyried, yn cynnwys:-</p> <p><u>Fframwaith Arfaethedig Gweithdrefnau ar gyfer Mentora Aelodau Etholedig</u></p> <p>Cyfeiriodd Aelod at welliant ar dudalen 11 paragraff 6 y Cofnodion. Dylai'r geiriau "Aelodau Grŵp Lleiafrifol" ddarllen "Aelodau Grŵp Llafur".</p> <p>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau'r Cofnodion.</p>	
5.	<p><u>ADOLYGIAD O DREFNIADAU ETHOLIADOL YM MLAENAU GWENT</u> <u>YMGYNGHORIAD GAN GOMISIWN DEMOCRATIAETH LLEOL A FFINIAU CYMRU</u></p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth i adroddiad Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol.</p> <p>Dywedodd Rheolwr Cefnogaeth Gorfforaethol y cynhaliwyd yr adolygiad gyda golwg ar ostwng nifer y cynghorwyr a diwygio ffiniau wardiau i gael cydraddoldeb etholiadol h.y.</p>	

nifer debyg o etholwyr fesul Cynghorydd ledled y Fwrdeistref. Cyflwynir y cynnig i'r Cyngor ar 22 Mawrth 2018 ac os cytunir arno, fe'i cyflwynir i Gomisiwn Democratiaeth Leol a Ffiniau Cymru erbyn 27 Mawrth 2018. Y Comisiwn fydd â'r gair olaf ar gynnig y Cyngor.

Siaradodd y Rheolwr Etholiadau a Phridiannau Tir yn fanwl am yr adroddiad yn ymwneud â strwythurau'r ward a hysbysodd Aelodau y defnyddiwyd ffiniau naturiol, lle bynnag roedd yn bosibl, i ddiwygio wardiau.

Cododd Aelod wrthwynebiad i gynnwys y parc manwerthu o fewn ward arfaethedig newydd Brynmawr, gan fod hyn o fewn ward Nantyglo ar hyn o bryd. Gyda chymorth map manwl o'r ward, eglurodd Rheolwr Etholiadau a Phridiannau Tir sefyllfa'r ffin newydd arfaethedig.

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau y caiff y materion hyn eu hystyried yn fanylach yn yr ymgynghoriad cyhoeddus ehangach gan y Comisiwn.

Dywedodd Aelod arall fod hyn yn gyfaddawd da gyda system mwy cytbwys yng nghyswllt wardiau Nantyglo a Brynmawr a dywedodd dros y blynyddoedd fod y ffiniau wedi dod yn aneglur gyda datblygiadau newydd.

Hysbysodd y Rheolwr Cefnogaeth Gorfforaethol yr Aelodau y caiff unrhyw sylwadau personol a gyflwynir gan Aelodau i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Lleol eu hystyried ganddynt ynghyd â sylwadau eu hetholwyr.

Dywedodd Aelod y byddai ymgynghoriad cyhoeddus yn effeithio ar drafodaethau a gofynnodd os byddai etholwyr Lakeside dan anfantais wrth symud i ward Brynmawr.

Atebodd y Rheolwr Cefnogaeth Gorfforaethol y cafodd pob ward ei hadolygu gyda golwg ar roi gwell cydraddoldeb etholiadol ledled y Fwrdeistref. Gall hyn arwain at oblygiadau ariannol i rai eiddo oherwydd amrywiadau yn y Dreth Gyngor oherwydd cyfraddau gwahanol cynghorau tref. Yng nghyswllt cynlluniau fel Cymunedau yn Gyntaf ni fu'n bosibl ystyried y cynlluniau hyn yng nghyswllt y newidiadau i'r ffiniau.

Mewn ymateb i gwestiwn Aelod am ardal Bournville, dywedodd y Rheolwr Etholiadau a Phriddiannau Tir fod Adroddiad Comisiwn Ffiniau 2010 wedi ymgynghori gyda phreswylwyr a ddywedodd yr hoffent i ardal Bournville gael ei chynnwys yn ward Cwmtyleri.

Byddai'r Rheolwr Cefnogaeth Gorfforaethol yn rhoi Adroddiad Comisiwn Ffiniau 2010 i Aelodau er gwybodaeth.

Darllenodd Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol drwy bob un o'r enwau ar gyfer y wardiau newydd arfaethedig er cymeradwyaeth Aelodau.

PENDERFYNWYD argymhell, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chytuno ar y cynigion dilynol a'u hargymhell i'r Cyngor er cymeradwyaeth:-

- Gostwng nifer y Cynghorwyr o 42 i 34 o 2022.
- Gostwng wardiau etholiadol o 16 i 14 ward.
- Diwygio ffiniau ar gyfer pob un o'r 14 ward etholiadol fel y dangosir ar y mapiau.
- Cyflwyno'r cynnig i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Lleol Cymru erbyn 27 Mawrth 2018. Caiff y dystiolaeth a'r rhesymau dros y cynnig hefyd eu cyflwyno fel rhan o'r cynnig.